CYFRES A10

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Efengyl Luc
Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 6: 8-15
7: 54-60

ADNOD ALLWEDDOL
1 Ioan 4: 19

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Steffan yn marw dros yr Arglwydd Iesu.

Wedi i'r Arglwydd Iesu fynd yn ôl i'r Nefoedd, daeth llawer o bobl i gredu Ynddo. Roedd y bobl hyn, oedd yn caru'r Arglwydd Iesu, yn rhan o eglwys Dduw yn Jerwsalem. Steffan oedd un o'r rhai oedd yn helpu yn yr eglwys honno. Roedd e'n ddyn da ac yn un oedd yn gwasanaethu'r Arglwydd Iesu drwy helpu pobl eraill. Roedd e'n llawn o'r Ysbryd Glân a byddai'n pregethu'n aml am Iesu Grist.

C Llanwch y bylchau i ddangos beth roedd Steffan yn ei wneud.

Roedd e'n **p** __ __ __ __ ___ __ am Iesu.

Roedd e'n **g** __ __ __ __ __ __ __ ___ __'r Arglwydd Iesu.

Roedd e'n **h** __ __ __ __ pobl eraill.

Doedd rhai o'r Iddewon ddim yn hapus bod Steffan yn pregethu am Iesu. Aethon nhw â Steffan i'r llys ac yno dwedodd pobl gelwydd amdano. Er bod Steffan yn cael amser anodd, doedd dim ofn arno. Doedd dim gwahaniaeth beth fyddai'r dynion hyn yn ei ddweud neu'n ei wneud iddo, byddai'r Arglwydd Iesu gydag e bob amser. Sylwodd y dynion blin mor ddigynnwrf oedd Steffan - mae'r Beibl yn dweud wrthym fod ei wyneb yn edrych fel wyneb angel!

Dechreuodd Steffan siarad â'r holl bobl oedd yn y llys. Dyma fe'n eu hatgoffa mai nhw oedd wedi lladd Iesu. Aethon nhw'n gynddeiriog wrth glywed hyn. Edrychodd Steffan i fyny i'r Nefoedd a gwelodd olau llachar. "Rwy'n gallu gweld Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw," llefodd. Roedd e'n gyffro i gyd wrth edrych i mewn i'r Nefoedd, ond roedd ei elynion yn fwy blin nag erioed.

C Rhowch ✓ neu ✗ wrth ymyl pob ateb.

Roedd yr Iddewon yn flin wrth Steffan oherwydd:-

Roedd e wedi gweld yr Arglwydd Iesu yn y Nefoedd. .....

Roedd e wedi dweud wrthyn nhw mai nhw laddodd Iesu. .....

Roedd e wedi dwyn eu harian. .....

6

Nawr roedden nhw eisiau ei ladd e'n syth. Dyma nhw'n rhuthro ato, yn ei lusgo y tu allan i'r ddinas a dechrau taflu cerrig mawr tuag ato.

Trawyd Steffan gan un garreg ar ôl y llall a gwyddai ei fod yn mynd i farw. Roedd yr Arglwydd Iesu yn y Nefoedd yn aros i gyfarfod ag e. Heb unrhyw ofn yn ei galon, dechreuodd Steffan weddïo, gan ofyn i'r Arglwydd Iesu fynd ag e i'r Nefoedd. Gofynnodd Iddo hefyd faddau i'w elynion am eu drygioni.

Wedi hyn, bu farw Steffan. Roedd e'n caru'r Arglwydd Iesu yn fawr iawn oherwydd Iddo Ef farw ar y groes drosto. Roedd Steffan yn barod i roi ei fywyd i Iesu Grist yn gyfnewid am hyn, er bod hynny'n golygu marwolaeth greulon.

C Llanwch yr atebion ar y Grid Geiriau.

1. Llusgwyd Steffan y tu allan i'r .....
2. Roedd y dynion yn ..... cerrig tuag ato.
3. Dechreuodd Steffan ..... dros ei elynion.
4. Roedd Steffan yn caru Iesu gymaint fel ei fod yn barod i .....
5. Gwelodd Steffan yr Arglwydd yn disgwyl amdano yn y .....
6. Gofynnodd i Iesu ..... i'r bobl oedd am ei ladd.
7. Mae'r Adnod Allweddol i'w gweld yn 1.....4: 19.



7

1

C Lliwiwch enw Steffan ar y Grid Geiriau.

Enw

DARLLENWCH
Actau 8: 26-40

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 8: 35

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 2 Philip yn rhannu'r newyddion da.

Roedd Philip hefyd yn credu yn yr Arglwydd Iesu a byddai'n mynd o gwmpas yn pregethu. Fel arfer, byddai'n pregethu mewn trefi a dinasoedd lle'r oedd llawer o bobl yn byw, ond un diwrnod dywedodd angel wrtho am fynd ar hyd ffordd oedd yn arwain drwy'r anialwch.

2

C Lliwiwch y llun sy'n dangos ble y cafodd Philip ei anfon.

Rhaid bod Philip wedi gofyn iddo'i hun pam ei fod yn cael ei anfon yno. Cyn hir, gwelodd gerbyd yn y pellter. Wrth i'r cerbyd ddod yn nes, gwelodd ddyn pwysig yn eistedd ynddo. Roedd hwn ar ei ffordd adref i wlad bell o'r enw Ethiopia, lle'r oedd yn swyddog i'r frenhines. Dywedodd yr Ysbryd Glân wrth Philip am fynd yn nes at y cerbyd. Wrth iddo wneud hyn, clywodd y dyn yn darllen rhan o'r Beibl!

C Rhowch linell drwy'r brawddegau anghywir.



Roedd y dyn yn marchogaeth ar gefn asyn.
Roedd e'n byw yn Ethiopia.
Roedd e'n swyddog i'r brenin.
Roedd e'n darllen.
Roedd e ar ei ffordd adref.

5

"Wyt ti'n deall beth rwyt ti'n ei ddarllen?" gofynnodd Philip.

"Sut y galla' i," atebodd y dyn, "os na fydd rhywun yn ei esbonio wrtha' i?" Ar unwaith, gofynnodd yr Ethiopiad i Philip ddod i eistedd wrth ei ymyl yn ei gerbyd. Roedd yr adnod a ddarllenai yn sôn am rywun fyddai'n cael ei ladd fel oen. Roedd yr Ethiopiad wedi drysu'n lân! Yna, esboniodd Philip mai Iesu Grist oedd y Person hwn oedd wedi bodloni mynd i'r groes a chymryd y gosb am ein pechodau.

C **Lliwiwch bob un o'r llythrennau ac eithrio q, x a z er mwyn dod o hyd i'r neges a bregethodd Philip wrth y dyn.**

qxzzxqnewyddionzzxdazzx
qzzxamqxzzqzzxIesu

3

Deallodd yr Ethiopiad yn fuan bod angen iddo dderbyn maddeuant am ei bechodau. Esboniodd Philip bod angen iddo ymddiried yn yr Arglwydd Iesu fel ei Waredwr. Heb oedi, credodd yn yr Arglwydd Iesu! Wrth deithio ar hyd y ffordd, meddai'r Ethiopiad, "Edrych, mae 'na ddŵr fan draw. Beth am i fi gael fy medyddio?" Arhosodd y cerbyd ac aeth y ddau i mewn i'r dŵr ac yno bedyddiodd Philip yr Ethiopiad. Roedd hyn yn arwydd ei fod bellach yn dilyn yr Arglwydd Iesu ac o hyn ymlaen, byddai ei fywyd yn gwbl wahanol. Wedi hyn, cipiwyd Philip i ffwrdd gan yr Ysbryd Glân i bregethu mewn mannau eraill. Aeth yr Ethiopiad ar ei daith gan lawenhau. Roedd e mor hapus fel ei fod ar dân eisiau dweud wrth drigolion ei wlad am yr Arglwydd Iesu.

C **Gosodwch y brawddegau isod yn y drefn gywir gan eu rhifo 1 i 6.**

Mae rhif 1 wedi'i wneud drosoch.

___**Aeth y ddau i mewn i'r dŵr.**

___**Gadawodd Philip yr Ethiopiad.**

1 **Credodd yr Ethiopiad yn yr Arglwydd Iesu.**

___ **Cafodd ei fedyddio gan Philip.**

___ **Aeth adref yn ddyn hapus iawn.**

___ **Gwelodd ddŵr.**

10

Dylem ni fod yn ddiolchgar ein bod wedi clywed y newyddion da am Iesu. Rhaid i ni hefyd ymddiried Ynddo fel ein Gwaredwr. Yna fe gawn ni brofi'r un llawenydd â'r dyn o Ethiopia.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 9: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
2 Corinthiaid 5: 17

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Saul a golau llachar!

Roedd Saul yn casáu Iesu! Doedd e ddim yn credu'r pethau roedd Iesu wedi'u dweud nac ychwaith yn credu mai Ef yw Mab Duw! Roedd Saul eisiau gwneud niwed i'r bobl oedd yn caru'r Arglwydd Iesu.

C Edrychwch yn ôl ar Wers 1.
Pwy oedd y dyn fuodd farw pan daflwyd cerrig ato?

S _ _ __ _ _ .

2

Roedd Saul yno pan ddigwyddodd hyn. Roedd e wrth ei fodd. Nawr, roedd e eisiau dod o hyd i bobl eraill oedd yn credu yn Iesu er mwyn eu taflu i garchar. Clywodd am rai oedd yn byw mewn dinas ymhell i ffwrdd.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob gwrthrych i ddod o hyd i enw'r ddinas y penderfynodd Paul fynd iddi.

_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

3

Wrth i Saul a'i ffrindiau gyrraedd cyrion y ddinas, fflachiodd golau llachar yn sydyn iawn o'u hamgylch. Roedd y profiad yn ormod i Saul a syrthiodd i'r llawr.
"Saul, Saul, pam wyt ti'n fy erlid i? gofynnodd llais o'r nef.
"Pwy wyt ti, Arglwydd?" atebodd Saul, gan deimlo'n ofnus a dryslyd.
"Fi yw Iesu, yr Un rwyt ti'n ei erlid," meddai'r llais.



Roedd Saul nawr yn deall mai Iesu yw Mab Duw, a'i fod Ef yn fyw yn y Nefoedd. Roedd holl feddyliau Saul am yr Arglwydd Iesu wedi bod yn anghywir! Roedd gwir angen newid ei fywyd!
Yna dywedodd yr Arglwydd Iesu wrth Saul am fynd yn ei flaen i'r ddinas, ac yno byddai'n cael gwybod beth oedd yn rhaid iddo'i wneud. Ond pan gododd ar ei draed, roedd e'n ddall a bu'n rhaid i'w ffrindiau ei helpu i gerdded!

C Ysgrifennwch yr atebion yn y Croesair.

I LAWR

1. Roedd Saul eisiau taflu'r Cristnogion i'r ..... .

2. Ymddangosodd ..... llachar o'r Nefoedd.

3. Bu'n rhaid i'w ffrindiau ei helpu i mewn i'r ..... .



AR DRAWS

3. Doedd Saul ddim yn gallu gweld; roedd e'n ..... .

8

Pan gyfarfu Saul â'r Arglwydd Iesu, roedd hyn yn ddechrau bywyd newydd.

C Edrychwch ar y tri gair hyn. Defnyddiwch nhw i gwblhau'r Adnod Allweddol.

Nghrist hen newydd

"Os yw rhywun yng ___ __ __ __ __ __,

y mae'n greadigaeth __ __ __ __ ___;

aeth yr __ __ __ heibio, y mae'r newydd yma."

3

O hyn ymlaen, byddai bywyd Saul yn wahanol.

C Llanwch y bylchau gyda'r HEN BETHAU fyddai fyth eto yn rhan o'i fywyd.

Casáu I__ __ __.

C __ __ __ __ dilynwyr Iesu Grist.

Gwrthod credu yn Iesu fel M __ __ D __ __ .

4

Mae pob un ohonom yn bechaduriaid ac yn gwneud pethau drwg. Dim ond yr Arglwydd Iesu sy'n gallu cymryd ymaith ein pechodau. Dim ond Ef sy'n gallu rhoi i ni'r nerth i fyw bywyd newydd. Bydd Ef yn ein helpu bob dydd i wneud yr hyn sy'n iawn, os byddwn ni'n credu Ynddo ac yn ufuddhau Iddo, fel Saul.



Enw

DARLLENWCH
Actau 9: 10-23

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 9: 20

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Newid mawr yng nghymeriad Saul.

Siaradodd Duw gydag Ananias mewn breuddwyd a gofynnodd iddo fynd i weld Saul. Roedd Ananias wedi clywed mor greulon roedd Saul wedi bod wrth y bobl oedd yn caru'r Iesu, felly doedd e ddim yn awyddus i fynd ar y dechrau. Ond esboniodd yr Arglwydd bod bywyd Saul wedi ei newid yn llwyr. O hyn ymlaen, byddai Saul yn pregethu am yr Arglwydd Iesu i bobl nad oedd erioed wedi clywed Amdano.
Yna, ufuddhaodd Ananias i'r Arglwydd a daeth o hyd i Saul oedd wedi bod yn ddall ers tri diwrnod!
"Y brawd Saul," meddai Ananias, gan osod ei ddwylo arno, "yr Arglwydd sydd wedi fy anfon er mwyn i ti gael dy olwg yn ôl a chael dy lenwi â'r Ysbryd Glân."

Galwodd Ananias Saul yn "frawd" oherwydd roedd y ddau bellach yn perthyn i'r un teulu – teulu Duw! Yn sydyn, roedd Saul yn gallu gweld unwaith eto.
Cafodd ei fedyddio a chymerodd fwyd wrth i Ananias esbonio cynllun Duw ar ei gyfer. Cyn hir, cyfarfu Saul â dilynwyr eraill yr Arglwydd Iesu oedd yn byw yn Namascus. Roedden nhw'n rhyfeddu bod Saul bellach yn ffrind ac nid yn elyn iddyn nhw.

C Tynnwch linell syth i gysylltu dechrau a diwedd pob un o'r brawddegau hyn.

Gofynnodd yr Arglwydd	**gynllun arbennig ar gyfer bywyd Saul.**
Roedd gan yr Arglwydd	**yn gallu gweld unwaith eto.**
Roedd Saul	**i Ananias ymweld â Saul.**

6

C Lliwiwch y geiriau hyn sy'n dweud wrthym beth y dechreuodd Saul ei bregethu am yr Arglwydd Iesu.

"Iesu yw Mab Duw."

2

Pan fyddai Saul yn pregethu am yr Arglwydd Iesu, doedd yr Iddewon ddim yn hoffi'r neges hon. Cyn hir, dechreuon nhw gynllwynio i ladd Saul. Un noson, bu'n rhaid i'w ffrindiau ei helpu i ddianc mewn basged dros fur y ddinas.

C **Gorffennwch y llun i ddangos sut y dihangodd Saul o'r ddinas.**



2

Roedd bywyd Saul wedi ei newid yn llwyr.

C **Llanwch y bylchau gyda rhai o'r pethau NEWYDD oedd wedi dod i mewn i'w fywyd - gan ei fod bellach yn caru'r Arglwydd Iesu.**

Nawr, roedd e'n perthyn i d __ __ __ __ Duw.

Cafodd ei lenwi â'r Y__ __ __ __ __ G__ __ __.

Dechreuodd b__ __ __ __ ___ __ am Iesu.

10

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 A10

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120